

% o'r gweithgaredd sy'n berthnasol i'r sector Tir Âr:

MAE 710 O'R BUSNESAU WEDI COFRESTRU
gyda Cyswllt Ffermio yn dod o'r sector tir âr.
21% O WEITHGAREDD TIR ÂR



Y Rhwydwaith Arddangos

Mapio'r pridd i ganiatáu er mwyn rheoli'r tir yn fanwl gywir ar fferm Pantyderi


Mae 60 hectar (ha) o dir tyfu grawn a 40 ha o laswelltir wedi cael ei sganio a'i fapio ar fferm Pantyderi, gan greu parthau rheoli'r pridd ym mhob cae. Mae'r parthau hyn wedi cael eu dadansoddi ar gyfer lefelau ffosffad (P), potasiwm (K), magnesiwm (Mg) a pH yn ogystal â gwead gan ddefnyddio laser i ddiffinio'r math o bridd. Mae cynlluniau rheoli maetholion wedi cael eu llunio ar gyfer pob cae sydd wedi cael ei fapio, ac mae'r rhain bellach yn cael eu defnyddio er mwyn gwasgaru maetholion a chalc ar gyfraddau amrywiol. Mae'r defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r tail gwartheg yn seiliedig ar wellt ar y fferm ar gyfer gwasgariadau sylfaenol o P a K.



Ffigwr 1: Canlyniadau mapio'r pridd ar gyfer ffosffad (P) a photash (K).

Hau cnydau haidd gan ddefnyddio cyfradd hadau amrywiol

Mae arbrawf ar gyfer tyfu cnwd o haidd gwanwyn drwy hau ar gyfradd amrywiol yn seiliedig ar wybodaeth mapio'r pridd wedi cael ei gwblhau ar ddau gae cyfagos. Heuwyd yr ardaloedd gyda'r pridd salaf, neu'r ardaloedd problemus, gyda chyfradd uwch o hadau gyda'r nod o gydbwysu cynnyrch y cnwd ar draws y cae (Ffigwr 3). Darparwyd mapiau digidol i'r



contractwr hau ar gerdyn SD sy'n cysylltu trwy system GPS y tractor i arwain y dril i hau ar gyfradd amrywiol. Roedd asesiad o'r haidd ym mis Gorffennaf yn dangos bod 5% yn fwy o haidd yn tyfu yn y cae a oedd wedi'i hau ar gyfradd amrywiol, ac wrth gynaeafu, roedd y cnwd a oedd wedi'i hau ar gyfradd amrywiol yn dangos llawer llai o blygu, er bod y cnwd ei hun yn debyg iawn ar gyfer y ddau gae.

Ffigwr 3: Map hau haidd gwanwyn ar gyfradd amrywiol mewn dau gae cyfagos.



Ffigwr 2: Trosglwyddo'r data mapio'r tir i system GPS y tractor ar gerdyn SD.

Gwasgaru calch ar gyfradd amrywiol

Mae defnyddio technoleg mapio pridd wedi arwain at arbedion o ran gwasgaru calch ar y glaswelltir a'r tir âr trwy wasgaru calch ar gyfradd amrywiol.

Cyfradd	Glaswelltir		Tir Âr	
	Sefydlog	Amrywiol	Sefydlog	Amrywiol
Calch (tunnell)	182.1	171.3	170.0	146.0
Cost (£)	5,463	5,139	5,100	4,380

Tabl 1: Arbedion calch drwy wasgaru ar gyfradd amrywiol.

Digwyddiadau

'Ffermio trwy gyfnod o her a newid' – 18/2/2020 Cynhadledd Âr AHDB, NFU Cymru a Cyswllt Ffermio

Nod y digwyddiad hwn oedd helpu i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a'r adnoddau gofynnol er mwyn rhedeg busnes ffermio â'r gwydn.

Y siaradwyr oedd:

Dr Bryan Watters (Prifysgol Cranfield)

Bu Bryan yn trafod profiad o arweinyddiaeth sefydliadol wrth wasanaethu fel Cyfarwyddwr gyda Chynghrair Diogelu'r UN yn ystod rhyfeloedd Bosnia ac Iraq, a bu'n trafod sut y bu iddo ddatblygu ei sgiliau gwneud penderfyniadau critigol dan bwysau, gan ystyried sut i reoli a gwerthfawrogi eich amser eich hun.

Rachael Madeley-Davies (Kite Consulting)

Bu Rachael Madeley-Davies yn trafod sut i groesawu a rheoli newid o fewn yr amgylchedd ffermio er mwyn dod yn unigolyn mwy gwydn.

Blair McKenzie (James Hutton Institute)

Bu Blair McKenzie yn gwerthuso'r ystyriaethau angenrheidiol wrth ddewis y dull mwyaf addas i sefydlu cnydau er mwyn gwella iechyd y pridd a chyflawni potensial y cnwd ar gyfer ffermwyr.

Tom Mead (Fferm Monitro AHDB yn Duxford)

Bu Tom Mead yn egluro sut mae'n anelu at sefydlu, meithrin a chynnal cnwd grawn iach a phroffidiol ar ei fferm yn Swydd Caergrawnt.

Prif negeseuon:

Peidiwch â bod ofn newid



Defnyddiwch gyfnod o newid fel cyfle



Defnyddiwch newid er mwyn gwerthuso cyfeiriad eich busnes



Cyfnewidfa Rheolaeth

Cyfnewidfa Rheolaeth William Scale – Gorffennaf – Rhagfyr 2019

Pwnc: Trin y tir cyn lleied â phosibl ac arallgyfeirio.

Gwledydd: Y Ffindir a Ffrainc

Nod taith gyfnewid William oedd datblygu gwybodaeth a gweld technegau a fyddai'n galluogi ei fferm i fod yn fwy adnewyddol, cystadleuol ac effeithlon, a dysgu sut i ddatblygu technegau tyfu cnydau y gellir eu combeinio a chnydau blynyddol er mwyn gwneud gwelliannau. Dewisodd ymweld â'r Ffindir gan ei fod yn wlad gyda diwydiant amaeth tir â'r ymylol. Mae'r ffermydd yn debyg i faint fferm deuluol, ac yn y Ffindir mae'r canran uchaf o ffermio heb drin y tir yn Ewrop, sef 10-12% o'r holl dir. Roedd ganddynt hefyd safle arbrofol ar gyfer ffermio heb drin y tir, sydd wedi bod yn weithredol ers dros 20 mlynedd. Dewisodd ymweld â Ffrainc oherwydd ei ffocws ar dyfu cnydau gorchudd dwys er mwyn adeiladu priddoedd. O ran hinsawdd, mae'n debycach i Gymru na'r Ffindir oherwydd llai o rew, ond mae eu tymor tyfu'n fyrrach, ac mae angen iddynt allu dygymod â gwres eithafol.

Cliciwch [yma](#) i ddarllen adroddiad William.

EIP CYMRU

Ymchwilio i botensial tyfu gwenith hynafol yn ne orllewin Cymru




Mae galw cynyddol gan bobwyr crefft, a gwerthwyr mwy masnachol, am rywogaethau hynafol o rawn, ac mae'r prosiect hwn yn archwilio a oes lle i'r cnydau hyn mewn systemau modern, a p'un a allai arferion agronomeg addasadol gynorthwyo gyda chynhyrchiant.


Y cam cyntaf oedd cymharu tri gwahanol fath o rywogaethau gwanwyn, Einkorn, barfog Ebrill a Mulika mewn systemau organig a chonfensiynol.

Mae Mulika yn rhywogaeth fodern a ddefnyddiwyd fel cnwd rheoli. Ar y lleiniau organig, perfformiodd y rhywogaeth barfog Ebrill yn well na Mulika, a llwyddodd hefyd i sicrhau canlyniadau da ar y lleiniau confensiynol. Ni chafwyd perfformiad cystal gan y cnwd Einkorn o'i gymharu â'r rhywogaeth barfog Ebrill yn y naill system.

Cynnyrch Grawn yn ôl System Ffermio a Cnwd



Elfen arall a fesurwyd oedd taldra'r cnwd, gan fod cnydau talach yn gallu bod yn agored iawn i blygu. Roedd y rhywogaethau hyn yn tyfu'n dalach ac yn fwy tebygol o blygu, gan eu gwneud yn anoddach i'w rheoli.



Cam nesaf y prosiect fydd i gymharu rhywogaethau sy'n cael eu hau yn yr hydref a chasglu gwybodaeth ynglŷn â sut mae'r rhain yn perfformio o'i gymharu â rhywogaethau modern.

Gweminarau



Cynhaliwyd

31 GWEMINAR gyda



4,267 O WYLWYR

Mae enghreifftiau o'r gweminarau a gynhaliwyd yn cynnwys:



Grwpiau Trafod



Cynhaliwyd

16

CYFARFOD GRŴP TRAFODYN YMWNEUD Â'R SECTOR ÂR

gyda



128

O FYNICHWYR

Astudiaeth Achos

Grŵp Trafod Llaeth Caerdydd – Tyfu cnydau protein mewn modd cynaliadwy fel bwyd anifeiliaid

Penderfynodd y grŵp edrych sut y bydden nhw'n gallu cynhyrchu cnydau protein mewn modd cynaliadwy ar gyfer bwyd anifeiliaid.

Amlinellodd Bryn Hughes, y siaradwr ar gyfer y digwyddiad bod, protein wedi bod yn cael ei or-fwydo yn y DU yn hanesyddol gyda lefelau protein crai yn uwch na'r angen, ac fel arfer dyma yw'r rhan ddryfaf o unrhyw ddogrn bwyd. Mae protein crai yn fesuriad o lefel nitrogen, ac mae ffigyrau a gyhoeddwyd yn dangos mai dim ond 25-30% o'r nitrogen yr ydym ni'n ei fwydo sy'n cael ei ddefnyddio yn y rwmen. Mae'r gweddill yn cael ei gollu mewn wrin, ysgarthion a llaeth.

Felly, gofynnwyd a oes modd lleihau faint o brotein yr ydym yn ei fwydo a sicrhau bod y rwmen yn defnyddio mwy o nitrogen, heb effeithio ar gynnyrch a chynhyrchiant?

Roedd awgrymiadau Bryn i'r grŵp yn cynnwys:

- Lluoio dogn ar gyfer protein metaboladwy
- Cydbwysedd bwyd/porthiant a dyfir gartref
- Lleihau faint o brotein a brynir i mewn
- Mesur eich effeithlonrwydd
- nitrogen ar y fferm
- Monitro wrea yn y llaeth
- Gwella effeithlonrwydd y rwmen ar gyfer defnyddio nitrogen
- Bwydo llai o soia
- Cynyddu'r defnydd o borthiant a dyfir gartref

Roedd yr awgrymiadau ynglŷn â chnydau protein amgen yn cynnwys:

- Meillion Gwyn – cynnydd o 10% mewn meillion gwyn = cynnydd o 1% mewn Protein Crai
- Meillion Coch – Cynhyrchu 10-15tDM/ha
- Llyriad / Alfalfa – Cynnyrch da pan fydd yn cael ei dyfu dan yr amodau delfrydol. 14tDM/ha.
- System 3-4 toriad.
- Ffa/Pys – Cynhyrchu 1-2t/erw. Gwerth porthiant 26-28% Protein Crai, ond yn gallu amrywio
- Eraill – Bysedd y Blaidd, Berseem, Meillion, Meillion Rhuddgoch, Soia, Ffacbys, Cnydau Bresych


Bu Hannah Wright, Swyddog Datblygu De Cymru, yn trafod y prosiect sy'n cael ei gynnal ar fferm Pantyderi, Aberteifi. Mae'r grŵp yn bwriadu dilyn datblygiadau'r prosiect.

Hyfforddiant

Cafwyd 4 cyfnod ymgeisio rhwng mis Hydref 2019 a Medi 2020 gyda **878** achos o hyfforddiant yn cael ei ddarparu yn ystod y cyfnod..

O'r nifer hwn, roedd **81** o'r achosion o'r sector â:

Nifer yr unigolion a dderbyniodd hyfforddiant o'r sector â:



Y cyrsiau mwyaf poblogaidd o fewn y themâu oedd:



E-ddysgu

Rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn ymwneud â'r sector â:



Am ragor o fanylion ynglŷn ag e-ddysgu, ewch i'r [wefan](http://www.llyw.cymrucyswiltfffermio).

